

**Addysg a Gweddnewid**  
**Deialu uniongyrchol :**  
**Gofynnwch am:** Cymorth Dysgwyr

**Ein cyf:**

**Dyddiad:** 16 Tachwedd 2020

## **At: Rieni/Gofalwyr disgyblion sy'n fynd i fewn i blwyddyn derbyn ym Medi 2021**

Annwyl Riant/Ofalwr

### **Derbyn i'r ysgol – Medi 2021**

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni a gofalwyr disgyblion sy'n gymwys i fynd i fewn i'r flwyddyn derbyn ysgol gynradd ym mis Medi 2021.

Os ydych chi'n rhiant/gofalwr i blentyn sy'n gymwys ar gyfer dosbarth derbyn Medi 2021, mae'n **rhaid** cwblhau cais derbyn ysgol. Hyd yn oed os mae eich plentyn yn bresennol mewn Meithryn yn eich ysgol/ion dewisol, does dim hawl awtomatig i le yn dosbarth derbyn.

Gellwch wneud cais ar-lein. Os ydych eisoed wedi ymuno â Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd angen i chi fewngofnodi ac wedyn gellwch gwblhau cais am le ym mlwyddyn derbyn ar-lein. Os nad ydych eisoed wedi llofnodi ar gyfer Fy Nghyfrif, gellwch greu eich cyfrif o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw cyfeiriad e-bost. Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais am le ym mlwyddyn derbyn drwy Fy Nghyfrif a gellwch gael tawelwch meddwl, gan wybod bod eich cais wedi dod i law oherwydd, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais, bydd hyn yn cael ei nodi yn y crynodeb o wybodaeth yn Fy Nghyfrif.

Cyn gwneud cais ar-lein, darllenwch y canllawiau ar y tudalen we, os gwelwch yn dda:  
[www.bridgend.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.bridgend.gov.uk/derbyniysgolion)

Mae'r ffurflen ar gael ar ffurf copi papur ar gais gan eich ysgol leol.

Bydd y ffurflen gais ar-lein ar gael drwy Fy Nghyfrif o 10:00 dydd Llun, 23 Tachwedd 2020. Nodwch, os gwelwch yn dda, mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau yw **16:00 dydd Gwener, 12 Chwefror 2021**. Gall methu â chyflwyno cais erbyn y dyddiad hwn arwain at wrthod lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi.

Mae gan bob rhiant/gofalwr yr hawl i nodi dewis o ran i ba ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn fynd iddi. Yn y rhan fwyaf o achosion mae rhieni'n fodlon dewis eu hysgol addas agosaf, a adnabyddir hefyd fel yr ysgol dalgylch. Fodd bynnag, os bydd eich cais yn llwyddiannus ar gyfer lle mewn ysgol wahanol i'ch ysgol dalgylch, **ni fydd** y Cyngor yn darparu cludiant am ddim fel arfer, beth bynnag yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Polisi Cludiant O'r Garef I'r Ysgol/coleg ar gael ar ein wefan o [www.bridgend.gov.uk/trafnidiaethysgol](http://www.bridgend.gov.uk/trafnidiaethysgol)

Os bydd ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, h.y. os yw'r galw am leoedd yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio ei feini prawf gormod o alw i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael. **Argymhellir yn gryf eich bod yn enwi ysgol arall fel eich ail ddewis o ysgol.** Gall hon fod yn ysgol y dalgylch ar gyfer eich plentyn neu ysgol arall nad yw yn y dalgylch. **Nid yw cyfyngu eich dewis i un ysgol yn unig yn gwella eich gobeithion o ennill lle i'ch plentyn yn yr ysgol honno.**

Mae'n bwysig nodi nad oes gan ddisgyblion â brodyr neu chwirydd yn yr un ysgol yr hawl awtomatig i gael lle yn yr ysgol honno. Nodir rhestr lawn o'r meini prawf goralw a weithredir wrth neilltuo lleoedd mewn ysgolion yn y Polisi ar gyfer Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2021-2022.

Ar gyfer derbyniadau i'r ysgolion canlynol, corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn sydd â'r cyfrifoldeb am yr holl drefniadau derbyn. Felly fe'ch cynghorir i gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i wneud cais am le. Mae'r meini prawf derbyn ar gyfer yr ysgolion yma yn wahanol i ysgolion gynradd eraill a mae manylion llawn ar gael o'r ysgolion a/neu ar wefannau'r ysgolion.

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
- Ysgol Gynradd Gatholig St Robert
- Ysgol Gynradd Archddiacon John Lewis

Mae copi o brospectws 'Dechrau yn yr Ysgol' y Cyngor ar gyfer 2021-2022, sy'n amlinellu'r polisi derbyn ac yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a rhieni/gofalwyr, ar gael ar wefan yr awdurdod [www.bridgend.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.bridgend.gov.uk/derbyniysgolion) neu, fel arall, ffoniwch 01656 642629 i gael copi papur, os gwelwch yn dda.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y broses dderbyn, e-bostiwch [pupilservices@bridgend.gov.uk](mailto:pupilservices@bridgend.gov.uk) os gwelwch yn dda.

Yn gywir



Robin Davies  
Rheolwr y Grŵp - Busnes, Strategaeth a Pherfformiad